



Crynodeb a Dadansoddiad o Arolygon - Awst 2022

Ym mis Tachwedd 2021, fe anfonon ni arolygon dwyieithog wedi'u hanelu at ddeiliaid tir cyhoeddus¹ a phobl sy'n chwilio am dir yng Nghymru i gasglu data ar y tir y maen nhw'n ei reoli, neu yr hoffon nhw ei reoli. Hyd yn hyn, mae 30 o geiswyr tir a naw deiliad tir cyhoeddus wedi cwblhau'r arolwg, a chawsom sgysiau gyda phum deiliad tir cyhoeddus arall yn hytrach na'u bod yn cwblhau'r arolwg. Yn y ddogfen hon, rydym yn cyflwyno canfyddiadau allweddol ymatebion yr arolwg a'r sgysiau cysylltiedig, i roi ymdeimlad o'r awch am dir ar gyfer ffermio agroecolegol yng Nghymru, a'r cyfleoedd a'r heriau a wynebir gan ddeiliaid tir cyhoeddus a allai fod yn barod i gefnogi mentrau o'r fath.

Dadansoddiad o arolygon deiliaid tir a chrynodeb o sgysiau

Ymhlith yr awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill rydym wedi ymgysylltu â nhw drwy'r gwaith hwn, roedd amrywioldeb mawr o ran y portffolio o dir yr oedden nhw'n gweithio gyda nhw, ond er hynny daeth rhai themâu tebyg i'r amlwg. O'r arolwg, roedd y rhain yn cynnwys y pwyntiau isod:

- Roedd y sefydliadau a atebodd yr arolwg yn amrywio o gynghorau cymuned gyda dim ond ychydig o erwau o dir i ystadau gwledig mawr sy'n cael eu gosod i nifer o denantiaid gan sefydliadau cenedlaethol neu awdurdodau lleol.
- Roedd ymatebion yr arolwg yn weddol gyfartal o ran dulliau rheoli rhwng trin tir yn fewnol (fel arfer ar gyfer darnau llai o dir, ac i gefnogi tenantiaid), a thrwy denantiaid drwy gyfrwng trwyddedau, busnesau fferm a thenantiaethau oes
- Trwyddedau oedd y dull rheoli tir a grybwyllwyd amlaf ymhlith yr ymatebwyr a roddodd fanylion ar fecanweithiau rheoli tir yn eu hardaloedd
- Er y gallai'r mwyafrif o'r ymatebwyr roi o leiaf amcangyfrif bras o arwynebedd eu holl daliadau tir, roedd gwybodaeth fanwl y tu hwnt i hyn yn anoddach i'w chasglu. Er enghraifft, dim ond tri ymatebwr ddywedodd y gallent ddarparu data ffiniau GIS ar gyfer eu daliadau, tra bod gan y rhan fwyaf naill ai ddim data lleoliad rhanadwy neu'n gallu darparu pwyntiau/cyfeiriadau yn unig (na fyddai'n rhoi data da ar arwynebedd pob safle neu ei ddaearyddiaeth)
- O ran addasrwydd eu tir ar gyfer tyfu bwyd, dim ond un ymatebwr roddodd ateb cadarnhaol pendant - doedd y rhan fwyaf ddim yn sicr neu'n credu y gallai rhain fod, ond roedd ardaloedd eraill yn debygol o gynnig amodau anodd fel rhannau arbennig o wlyb neu fryniog
- Yn galonogol, dywedodd pump o'r naw corff cyhoeddus a atebodd yr arolwg eu bod eisoes yn gweithio gyda grwpiau cymunedol mewn rhyw ffordd i reoli peth o'u tir, a rhoddodd rhai o'r ymatebwyr hyn hefyd fanylion cynlluniau sydd ganddyn nhw ar gyfer y dyfodol i weithio gyda chymunedau wrth reoli tir. Roedd enghreifftiau o drefniadau o'r fath yn cynnwys defnyddio Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol, cysylltu gofodau tyfu i unigolion a grwpiau cymunedol gyda banciau bwyd lleol, a chreu dolydd blodau gwylt
- Fe ofynnion ni gwestiwn a oedd eu sefydliad yn bwriadu rhyddhau unrhyw dir pellach i gymunedau ar gyfer tyfu bwyd fel rhan o argyfwng hinsawdd neu ymrwymadau eraill - dim

¹ Mae deiliaid tir cyhoeddus yn cynnwys awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, byrddau iechyd a chyrrff llywodraeth genedlaethol gyda daliadau tir.



ond un ymatebwr atebodd 'Ydy' i hyn, roedd pawb arall atebodd y cwestiwn hwn wedi dweud nad oedden nhw'n siŵr. Fodd bynnag, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod gan eu sefydliad bolisiau neu strategaethau ffurfiol ar waith sy'n sbarduno ei gynlluniau ystadau presennol ac yn y dyfodol. Gallai hyn awgrymu bod cyfleoedd heb eu cyffwrdd i gyrrff cyhoeddus gysoni eu polisi rheoli tir er mwyn cyflawni amcanion newid hinsawdd

Fe wnaethom gynllunio'r arolwg yn fwriadol fel ei fod yn hyd hwylus i gynrychiolwyr prysur cyrff cyhoeddus ei lenwi, ond wrth gwrs roedd y dull hwn yn golygu y byddai diffyg manylder o ran yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu staff wrth geisio rheoli eu tir, o bosibl gyda chymunedau. Am y rheswm hwn, roedd y sgysiau a gawsom gyda sawl swyddog corff cyhoeddus yn gymorth mawr wrth ddysgu mwy am eu profiadau a'u dealltwriaeth lle gallai'r prosiect Mannau Gwyrdd Gwydn allu cynnig cefnogaeth. O'r trafodaethau hyn, dyma rai o'r prif bwyntiau ddaeth i'r amlwg:

- Mae'n amlwg bod diddordeb ymhlith y staff y buon ni'n siarad â nhw, i weithio ar fentrau sy'n cefnogi tyfu bwyd, gwella bioamrywiaeth, a/neu fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gyda rhyw lefel o gyfranogiad gan y gymuned. Fodd bynnag, anaml yr oedd graddfa 'fferm gymunedol' 0.5ha+ rydyn ni'n canolbwyntio ei ar hwyluso yn y prosiect hwn wedi cael ei ystyried hyd yma. Roedd swyddogion yn fwy cyfarwydd â gweithio ar raddfa'r rhandir/gardd gymunedol, er eu bod yn agored i archwilio dewisiadau amgen (fel y gwelir yn [Astudiaeth Achos CSA Ysbyty Treforys](#) yn benodol)
- Mae'r cyd-destun polisi cyffredinol i gefnogi'r math o gynlluniau a grybwyllir uchod yn gymharol gryf yng Nghymru (gweler ein Crynodeb o Gyd-destun [Polisi Cymru](#) am wybodaeth bellach) - er enghraifft Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus ystyried effaith lles hirdymor eu cynlluniau. Fodd bynnag, gall deddfwriaeth ynghylch hawl cymunedol i brynu a/neu fynediad i dir ac asedau eraill fod yn ddiffygiol o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU
- Mae cael hyrwyddwr yn y sefydliad i helpu grwpiau cymunedol ddilyn prosesau biwrocraidd hir, a 'chadw'r ffydd', yn bwysig, ond yn aml mae gallu staff yn ddiffygiol hyd yn oed pan fo'r brwdfrydedd yno
- Byddai symleiddio rhai prosesau sefydliadol yn ddefnyddiol iddyn nhw fod yn realistig i grwpiau cymunedol bach gychwyn arnynt, nid dim ond wedi'u teilwra ar gyfer y contractau masnachol mae cyrff cyhoeddus efallai'n fwy cyfarwydd ar eu defnyddio. Efallai y gellid gwneud hyn yn ystod dyluniad strategaeth neu bolisi newydd, drwy weithio gyda grwpiau cymunedol i ystyried sut y gallai'r polisi hwn edrych yn ymarferol iddyn nhw pe bydden nhw'n ceisio ymgymryd ag ef, er enghraifft, Trosglwyddiad Asedau Cymunedol, ac yna symleiddio'r polisi cymaint â phosibl er mwyn iddo fod yn gymesur â'r prosiect sydd mewn golwg, yn ogystal ag adeiladu cefnogaeth sefydliadol ddigonol ar gyfer pob cam angenrheidiol o'r broses. Gallai hyn hefyd helpu i fynd i'r afael â'r materion a grybwyllwyd gan un cyngor y buon ni'n siarad â nhw, bod angen mwy o dryloywder a thegwch o gwmpas pa grwpiau sy'n cael mynediad i dir sydd ar gael, ac na ddylai fod yr un sy'n 'gweiddi fwyaf' sy'n cael y tir - pe bai cefnogaeth briodol ar gael, byddai'n debygol o sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael i fwy o grwpiau.
- Anaml y bydd data tir manwl yn hawdd cael gafael arno, hyd yn oed i swyddogion y cyngor, i gefnogi eu gwaith gyda grwpiau cymunedol sy'n chwilio am dir. Er y gallai amcangyfrif o gyfanswm yr arwynebedd sy'n eiddo i gorff cyhoeddus fod yn hysbys, efallai na fydd union



ffiniau daearyddol y tir hwn yn hawdd cael gafael arno, heb sôn am yr wybodaeth ychwanegol sy'n ddefnyddiol os yw'n ystyried addasrwydd ardal ar gyfer tyfu bwyd, megis y cyfeiriad mae'n wynebu neu'r math o bridd. Mae nifer o gynghorau yn cynnal adolygiadau tir ar hyn o bryd, ond maen nhw'n cydnabod bod hon yn debygol o fod yn broses hir gan fod y data'n aml yn cael ei gadw mewn llawer o wahanol lefydd

- Roedd cyrff cyhoeddus y buom yn siarad â nhw hefyd yn nodi'r gofynion enfawr ar eu hystadau o bob cwr, gyda thair fforddiadwy y brif flaenoriaeth, ond roedd angen manau hefyd ar gyfer plannu coed a thelegyfathrebu. Er mwyn i fentrau fel ffermydd cymunedol weithio yn y tymor canolig a'r tymor hir, mae iddyn nhw gael cynnig tir sydd wirioneddol ar gael, nid dim ond yn cael ei ddal am rywbeth arall, rheswm arall pam mae data tir cynhwysfawr yn hanfodol. Mae'n ymddangos bod mwy o waith i'w wneud hefyd i ddangos sut y gall prosiectau sy'n amaethu tir fferm yn agroecolegol gyfrannu at sawl amcan, ac er enghraifft ni ddylid ystyried bod cyrraedd targedau plannu coed neu wella bioamrywiaeth yn golygu nad oes modd cynhyrchu bwyd hefyd. Ond dywedodd un o'r swyddogion y siaradon ni â nhw y gall datganiadau argyfwng hinsawdd weithredu fel anghymhelliaid i gynghorau sy'n rhoi mynediad i dir, oherwydd os yw'r tir yn cael ei osod yn allanol nid yw'n cyfrannu tuag at eu cyllidebau carbon
- Gall yr anesmwythyd a'r rhwystrau gweithdrefnol cysylltiedig sy'n bodoli ynghylch materion gwerth ac elw fod yn broblem sy'n benodol i gyrff cyhoeddus sy'n cynnig mynediad i dir ar gyfer mentrau cymunedol ar raddfa fwy fod Mae'r darnau tir y mae cyrff cyhoeddus weithiau'n fodlon rhoi mynediad i'r gymuned iddynt yn aml yn rhai nad ydynt yn cynhyrchu incwm (neu yn wir yn gostus ar adnoddau) i'r sefydliad ar hyn o bryd, ond os yw grŵp cymunedol neu fusnes yn gosod allan yn eu cynlluniau eu bod yn bwriadu ceisio cynnal eu hunain drwy, er enghraifft, weithrediad tyfu masnachol a fyddai'n cynhyrchu elw (hyd yn oed os yw hyn yn mynd i gael ei ail-fuddsoddi yn y fferm a'r gymuned ehangach), gall y corff cyhoeddus wedyn ddod yn betrusgar, gan ei fod wedyn yn teimlo efallai y gallai fod yn elwa o'r incwm hwn ei hun, ac felly gallai wrthod mynediad. Fodd bynnag, gan nad oes digon o staff ar gael fel arfer i arwain menter o'r fath yn fewnol, gall y tir ddiweddu i fyny'n cael ei danddefnyddio eto. Wynebodd y tîm sy'n gweithio ar CSA Ysbyty Treforys y nerfusrwydd hwn, ac fe lwyddon nhw i'w oresgyn drwy ddangos gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach eu dull o ddarparu gofal iechyd yn lleol – gallai hyn fod yn rhywbeth y gallai cyrff cyhoeddus eraill ystyried addasu i'w hamgylchiadau
- Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod a'r pwysau ar gyrff cyhoeddus i gael y gwerth ariannol gorau am arian wrth werthu neu rentu tir -y Dreth Trafodiad Tir² ar gyfer tir neu eiddo dros drothwy penodol sy'n golygu y bydd y Trysorlys yn trethu gwerth cyfalaf y tir, nid y swm y mae'n cael ei werthu neu ei rentu amdano, felly os yw'r safle yn cael ei roi ar brydles am £1 y flwyddyn bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud colled ariannol sylweddol, a dyna pam ei bod hi'n bwysig bod tystiolaeth briodol ar gael ar ffurfiau eraill o werth.

² Am fwy o wybodaeth am y dreth Trafodiad Tir a sut mae'n cael ei gyfrifo, cliciwch yma: <https://gov.wales/land-transaction-tax-guide>.



Dadansoddiad o arolwg tirfeddianwyr

Datgelodd yr ymatebion i'r arolwg ceiswyr tir gryn ddiddordeb mewn dulliau agroecolegol a chymunedol tuag at ffermio yng Nghymru, ond gyda rhwystrau sylweddol wrth geisio cael mynediad i dir addas i weithio arno. Er bod nifer o ymatebwyr yn amlwg yn brofiadol yn tyfu bwyd a bod ganddynt rai cynlluniau ar gyfer sut y byddent yn gweithredu'r ffermydd y maen nhw am eu sefydlu, daeth anghenion cefnogaeth hefyd i'r amlwg o ran adeiladu sgiliau allweddol, neu symud syniadau ymlaen at bwynt lle byddai mentrau'n barod iawn i ddechrau cyn gynted ag y byddai tir ar gael.

Roedd y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd i'r arolwg wrthi'n chwilio am dir ar y funud (70% o'r ymatebwyr), gyda dim ond ychydig naill ai eisoes wedi nodi darn o dir (10%), neu yn hytrach bod ar gam cynharach o ystyried eu dewisiadau (20%). Roedd defnyddio dulliau ffermio agroecolegol neu organig yn flaenoriaeth i bob ymatebydd, yn ogystal â gweithio gyda'r gymuned leol, gwerthu iddi hi neu ei chynnwys mewn rhyw ffordd. Roedd syniadau ar gyfer hyn yn cynnwys cynnig cadw gwenyn, meddyginiaeth llysieuol neu wersi tyfu bwyd, gwerthu cyfanwerthol i'r sector cyhoeddus, sefydlu Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol neu redeg CSA. Roedd pawb a gymerodd ran yn yr arolwg (ar wahân i un nad atebodd y cwestiwn) o leiaf yn fodlon ystyried gweithio gyda thirfeddiannwr i ddatblygu partneriaeth tir gydag eraill.


Roedd cyfranogwyr yn dewis lleoliadau ar draws Cymru y byddai ganddyn nhw ddiddordeb mewn ffermio ynddynt, ond Gwynedd, Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion oedd yr ardaloedd mwyaf poblogaidd gafodd eu dewis. Soniodd ychydig llai na dwy ran o dair o'r ymatebwyr am fwy nag un ardal lle byddent yn hoffi ffermio neu fe ddwedon nhw y byddent yn mynd i ble bynnag yr oedd tir ar gael, gan nodi lefel uchel o hyblygrwydd pobl i symud i rhywle i gael y cyfle iawn.

Y prif rwystr a nodwyd wrth gyrchu tir oedd pris tir fferm (a ddewiswyd gan 80% o'r ymatebwyr) a diffyg mynediad cysylltiedig at gyfalaf i dalu'r costau hyn (67%). Cynilion personol, teulu a ffrindiau, grantiau'r llywodraeth, neu ymgyrchoedd ariannu torfol oedd y dewisiadau mwyaf poblogaidd gan ymatebwyr o ran sut maen nhw wedi bod/neu y bydden nhw'n gobeithio ariannu eu cynlluniau. Fodd bynnag, soniodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr hefyd am beidio â gwybod ble i chwilio am gymorth (43%), neu nad oes tir fferm ar gael lle byddent yn hoffi tyfu (23%).

O ran faint o dir roedd pobl yn ei geisio, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn chwilio am lai na 10 hectar o dir; 2-5 hectar oedd y dewis mwyaf poblogaidd gyda 60% o'r bobl a gwblhaodd yr arolwg yn dewis hynny. Roedd y mathau o ffermio oedd gan bobl ddiddordeb ynddynt yn cyfateb yn fras â'r rhai a geir yn fwy cyffredin ar ddaliadau bach ar hyn o bryd, fel y rhai sy'n gysylltiedig â garddio marchnad. Fodd bynnag, fel y mae'r graff llawn o ymatebion isod yn ei ddangos, roedd gan bobl ddiddordeb mewn amrywiaeth o fathau o ffermio, gydag rhai ymatebwr hyd yn oed yn ystyried grawnfwydydd a da byw:



What type of farming are you interested in?



Gofynnwyd i'r ymatebwyr osod eu blaenoriaethau mewn trefn wrth chwilio am dir yn nhermau'r seilwaith pwysicaf ar y safle, daearyddiaeth, fforddiadwyedd, a mwynderau cyfagos. O edrych ar brif flaenoriaethau'r ymatebwyr, roedd eu prif bryderon wrth chwilio am dir yn ymwneud â llety ar y safle neu gerllaw, peth o'r prif seilwaith sydd ei angen ar gyfer garddwriaeth, megis addasrwydd math a chyflwr pridd, y potensial ar gyfer polydwnelau/tai gwydr, a mynediad i ddŵr, a fforddiadwyedd y tir.

Dywedodd traean o gyfranogwyr yr arolwg eu bod yn bwriadu prynu tir, ond ar ôl hynny yr isafswm hyd prydles mwyaf poblogaidd a ddewiswyd oedd 'o leiaf 10 mlynedd', a ddewiswyd gan 23% o bobl. Mae hyn, a'r ganran isel o bobl a ddywedodd y gallen nhw ddelio â phrydles gyfamserol neu brydles o ddwy flynedd neu lai, yn awgrymu bod y darpar ffermwyr agroecolegol hyn yn teimlo bod angen hawl sicr arnynt i ddefnyddio'r tir ar gyfer y tymor canolig neu hir er mwyn sefydlu'r seilwaith angenrheidiol a rhedeg menter lwyddiannus.

Er bod 50% o'r ymatebwyr yn dweud y bydden nhw'n gallu symud yn gyflym, o fewn mis neu ddau, pe bai'r cyfle iawn yn codi, dywedodd y gweddill bod angen mwy o amser arnynt i gynllunio, neu nad oeddent yn siŵr faint o amser a allai fod angen arnynt i symud. Mae'n ddiddorol cymharu'r ymdeimlad hwn o barodrwydd gyda pha mor hyderus yr oedd pobl yn teimlo o ran gallu cynhyrchu cynllun busnes ar gyfer eu fferm arfaethedig - dim ond pump o ymatebwyr ddywedodd fod ganddynt gynllun eithaf manwl, a dywedodd dau arall eu bod yn credu y gallent ysgrifennu cynllun busnes ond nad ydyn nhw wedi mynd ati i wneud hynny eto. Roedd gweddill yr ymatebwyr mewn cyfnod cynharach o gynllunio - ar ôl gwneud rhywfaint o ymchwil i'r farchnad neu gynllunio ar gefn amlen, er enghraifft, ond dywedodd ugain y cant o'r holl ymatebwyr nad oedden nhw'n gwybod sut i ysgrifennu cynllun busnes. Fe wnaethon ni hefyd ofyn cwestiwn am sgiliau eraill yr oedd ymatebwyr



yn teimlo bod angen iddyn nhw, neu eu grŵp cyfan, eu datblygu.³ Er bod bron i hanner yr ymatebwyr wedi gweithio ar y tir fel cynhyrchwyr am o leiaf 3-5 mlynedd, a bod gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sgiliau yn cynnwys rheoli gwirfoddolwyr, gweithio gyda phlant a phobl ifanc, a gweithio ar eu pennau eu hunain neu o fod yn hunangyflogedig/llawrydd, dywedodd o leiaf hanner yr ymatebwyr hefyd bod angen iddyn nhw ddatblygu sgiliau allweddol i redeg fferm, gan gynnwys llunio cynllun busnes, gwneud cais am ganiatâd cynllunio, sicrhau yswiriant ar gyfer prosiect sy'n tyfu, a rheoli gweithrediad tyfu (yn cynnwys cynllunio cnydau). Yn amlwg mae angen cefnogaeth ar reoli rhai o'r agweddau mwy technegol hyn o redeg busnes neu fenter gymdeithasol, a fferm ar raddfa fasnachol.

Y Camau Nesaf

O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r canlyniadau o'r ymchwil cychwynnol hwn wedi amlygu nifer o lwybrau posibl i Fannau Gwyrdd Gwydn roi cefnogaeth iddynt. Mae'n amlwg bod rhai cyrff cyhoeddus eisoes yn archwilio ffyrdd arloesol o agor mynediad i fwy o dir ar gyfer cymunedau, a rhai tyfwyr profiadol yn barod i ymgymryd â'r her o fferm agroecolegol sy'n cael ei rhedeg gan y gymuned mewn sawl lleoliad ar draws Cymru. Bellach, gellir rhoi sgiliau gwahanol bartneriaid Mannau Gwyrdd Gwydn at ddefnydd da wrth helpu i hwyluso perthynas rhwng tir-ddeiliaid a cheiswyr tir, a'u cefnogi i weithio drwy rai o'r agweddau mwy technegol megis cynllunio busnes a sicrhau prydles priodol, er enghraifft drwy ein llif gwaith hyfforddi 'Meithrin Sgiliau Ffermio Garddwriaethol yn y Dyfodol'. Byddwn yn estyn allan at ddarpar bartneriaid cymunedol a thirfeddiannwr yn y misoedd nesaf i drafod eu cynlluniau yn fanylach ac i helpu i symud pethau ymlaen.

Cyfyngiadau'r dull

Er ein bod yn hapus â lefel yr ymgysylltu gyda'r ymchwil hwn, ni ddylai hyn gael ei weld o bell ffordd fel astudiaeth gynhwysfawr o ddaliadau tir cyhoeddus a phobl sy'n chwilio am dir yng Nghymru. O ystyried yr amser a'r adnoddau oedd gennym ar gael, fe wnaethom ein gorau i sicrhau bod yr arolwg yn cael ei anfon at gymaint o gyrff cyhoeddus ag y gallem ddod o hyd i gyfeiriadau e-bost priodol ar eu cyfer, a rhannwyd yr arolwg ceiswyr tir yn bennaf drwy Shared Assets, sef rhwydweithiau Cynghrair y Gweithwyr Tir a Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd nifer o awdurdodau lleol, er enghraifft, heb ymateb i'r arolwg, mae'n debyg oherwydd y pethau niferus eraill sy'n pwysu arnynt, a'r anawsterau wrth ymateb yn gywir a drafodwyd uchod (er enghraifft bod data ar dir yn cael ei ddal gan nifer o bobl/adrannau). Os rhywbeth, dylid ei weld fel arwydd o ddarn mwy o waith y mae angen ei wneud i gael darlun clir o dir cyhoeddus yng Nghymru a'r llwybrau posibl i gael mynediad i dir mae'n ei ddal ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn prosiectau agroecolegol wedi eu harwain gan y gymuned.

³ Er bod y mwyafrif o bobl yn ymateb i'r arolwg fel unigolion, dywedodd dros hanner yr ymatebwyr y bydden nhw'n hoffi dechrau'r fferm fel grŵp.